

Gwella a Thrwsio

Ein nod yw darparu gwasanaeth cynnal a chadw da ac effeithlon i'n tenantiaid

Trwsïadau Tai 01352 701660

Cyfrifoldebau Tenantiaid

Mae tenantiaid yn gyfrifol am:

- cadw'r eiddo'n lân ac wedi'i addurno'n briodol
- dweud wrthym mewn da bryd pan fo angen gwneud gwaith atgyweirio
- gadael i ni ddod i mewn i'r eiddo i wneud gwaith atgyweirio.

Mae tenantiaid yn gyfrifol hefyd am wneud rhywfaint o waith atgyweirio:

- ailosod plygiau a tsaeniau yn y bath, basn ymolchi ayb .
- gosod ac ailosod clychau drws
- gosod erial neu ddysgl teledu (ac eithrio rhai cyffredin) .
- cynnal unrhyw lwybrau cyffredinol mewn gerddi (nid rhai sy'n arwain at ddrysau neu linellau sychu dillad)
- cael allweddi newydd yn lle rhai a gollwyd, newid y clo os byddwch wedi eich cloi allan, gosod cloeon ychwanegol
- ailosod bylbiau trydan a thiwbïau a botymau tanio goleuadau fflwroleuol a ffiwsïau mewn offer trydan
- addurno yn eich cartref gan gynnwys llenwi mân graciau a thyllau mewn plastr
- gweithredu i gadw tu mewn i bibellau a thanciau dwr rhag rhewi
- ceisio clirio sinciau, bathau a basnau sydd wedi blocio .
- ailosod gwydr oni allwch chi brofi nad chi oedd yn gyfrifol am y difrod
- atgyweirio a chynnal eich gosodion a'ch offer eich hun gan gynnwys pibellau peiriannau golchi
- ailosod leiniau sychu dillad neu gylchoedd sychu (ac eithrio mewn mannau sychu cyffredin) .
- ailosod silffoedd, llenni a bleindïau .
- ailosod batris mewn larymau mwg batri.

Ein Cyfrifoldebau

Ni sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw strwythur y cartref yr ydych yn byw ynddo. Mae hyn yn cynnwys yr holl rannau allanol ac unrhyw osodion a ffitiadau a ddarperir gennym onid ydynt yn rhan o'ch cyfrifoldebau chi.

Ein cyfrifoldeb ni hefyd yw'r holl bibellau, gwifrau a gosodion gwresogi, draeniau, pŵer a goleuadau, ac unrhyw larymau mwg a osodwyd gennym. Byddwn hefyd yn trefnu atgyweirio unrhyw offer a ddarparwyd gennym a glanhau simneiau a ddefnyddir ar gyfer tanau coed a glo.

Y tu allan i'ch cartref, ni sy'n gyfrifol am unrhyw waliau a ffensys sy'n eiddo i ni ac am risiau a llwybrau sy'n arwain o gyffiniau'r eiddo i'r prif ddrysau, i'r man sychu dillad ac i unrhyw dai allan a siedau a ddarparwyd gennym ni yn wreiddiol. Ni sy'n gyfrifol hefyd am unrhyw garejys sy'n rhan o'r adeilad, ac am unrhyw gyfleusterau cyffredin, gerddi cyffredin a manau agored.

Cydyfrifoldeb am Ddiogelwch Nwy

Yn gyfreithiol, rhaid inni archwilio diogelwch y nwy ym mhob cartref lle mae cyflenwad nwy. Rhaid ichi roi caniatâd inni ddod i'ch cartref i gynnal yr archwiliad. Os na wnewch, byddwn yn gweithredu i gael mynediad. Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn er eich budd chi. Cofiwch, hefyd, fod yn rhaid ichi beidio a chau tyllau awyr.

Esboniad a Chyngor Pellach

Pa atgyweiriadau mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn gyfrifol amdanynt?

Ni sy'n gyfrifol am du allan eich cartref, y prif adeiladwalth ac unrhyw osodion neu ffitiadau a osodwyd gennym y tu mewn i'ch cartref. Chi sy'n gyfrifol am gynnal tu mewn eich cartref ac am rai atgyweiriadau ac offer newydd. (Gweler Ein Cyfrifoldebau Ni ac Eich Cyfrifoldebau Chiuchod)

Oes rhaid imi dalu am unrhyw atgyweiriadau?

Os byddwch yn adrodd am atgyweiriad sydd ei angen oherwydd difrod a achoswyd gennych chi neu gan rywun yn eich cartref, byddwn yn disgwyl i chi ei atgyweirio ac i dalu am ei wneud. Byddwn bob amser yn gwneud gwaith brys er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch teulu'n ddiogel ond byddwn yn codi tâl am hyn os mai chi a achosodd y broblem. Mae ein taliadau'n cynnwys costau gweinyddu. Os digwyddodd y difrod oherwydd lladrad neu fandaliaeth ac os gallwch roi Rhif Trosedd yr Heddlu i ni, ni chodir tal arnoch am gost yr atgyweiriadau.

A allaf hawlio am ddifrod i'm cartref?

Chi sy'n gyfrifol am addurno tu mewn eich cartref. Chi sy'n gyfrifol hefyd am eich eiddo personol, carpedi, ayb. Dylech yswirio cynnwys eich cartref ar gyfer y pethau hyn rhag ofn iddynt gael eu dwyn neu eu difrodi. Os mai ni sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod gallwch hawlio'r gost.